

BBC LEARNING SY'N CYFLWYNO

Gwers Fyw Parti Deg Darn

Dyddiad: Dydd Gwener, 23 Medi 2016

Amser: 11:00am

Hyd: Tua 50 munud

Lleoliad: bbc.co.uk/livelessons

(Sylwch: os nad oes modd i chi wyllo'r gwe-ddarlliediad yn fyw, gallwch weld y recordiad ar wefan Live Lessons)

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cyfnod Allweddol 2/Lefel 2 – Cerddoriaeth

Fel rhan o'r wers, bydd y disgyblion yn cael eu hannog i wneud y canlynol:

- Ymateb i gerddoriaeth a chael eu hysbrydoli
- Creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr a chyfansoddi eu darnau eu hunain
- Gwrando ar gerddoriaeth gan roi sylw i fanylion penodol
- Deall nodiant cerddorol syml
- Bod yn aelodau o gynulleidfa sy'n gwerthfawrogi perfformiad cerddorol byw
- Dysgu am wahanol fathau o arddulliau cerddorol ac am wahanol gyfansoddwyr
- Defnyddio'u llais, eu corff ac offerynnau cerdd i arbrofi'n greadigol â rhythm, alawon a dynameg.

Gosod offer

Faint o le a faint o offer sydd ei angen?

Gellir dangos y wers yn yr ystafell ddosbarth gyda sgrin fawr wedi'i chysylltu â chysylltiad band eang dibynadwy. Does dim angen cael offer sain da ond bydd hynny'n gwneud y digwyddiad yn un mwy plaserus.

Gan y byddwn yn gofyn i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod y wers, byddai'n fanteisiol iddynt gael digon o le i symud o gwmpas, yn ogystal ag unrhyw offerynnau taro neu offerynnau traw os oes rhai ar gael.

Byddai hefyd yn wych pe bai ganddynt daflenni gwaith wrth law i'w harwain drwy'r gweithgareddau, yn ogystal â deunyddiau ysgrifennu, fel beiros a phensiliau.

Faint o ddisgyblion all gymryd rhan?

Gallwch chi ddewis faint o ddisgyblion fydd yn cymryd rhan yn y sesiwn. Rydym yn awyddus i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion ag y bo modd yn cymryd rhan yn y Wers Fyw hon. Efallai y bydd angen i chi ystyried faint o le sydd gennych os oes gennych chi grŵp mawr iawn.

Sut mae paratoi ar gyfer y wers

Cyn y wers

Bydd y Wers Fyw yn cynnwys tri darn:

- 'Mambo' o Symphonic Dances, 'West Side Story', gan Bernstein
- Concerto Rhif 4 Mozart i'r Corn (3ydd symudiad) a
- A Night on the Bare Mountain gan Mussorgsky.

Er y bydd y gerddorfa'n chwarae'r tri darn yn ystod y wers, gall fod yn fanteisiol gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael cyflwyniad byr i'r darnau cyn y Wers Fyw. Gallwch wyllo a gwranddo ar y gerddorfa yn perfformio pob un o'r darnau ar wefan Deg Darn yn bbc.co.uk/tenpieces.

Bydd gweithgaredd gwranddo a gweithgaredd ymarferol ar gyfer pob darn (mae'r manylion yn yr adrannau unigol isod).

Archwilio Rhythmau

Mae adran gyntaf y Wers Fyw wedi'i seilio ar **'Mambo' o Symphonic Dances, 'West Side Story'**, gan **Bernstein** ac mae'n rhoi cyflwyniad i batrymau rhythm syml. Bydd y disgyblion yn defnyddio'r daflen **'Gweithgaredd 1 – Rhythmau'**.

Ar gyfer y gweithgaredd gwranddo, gofynnir i'r disgyblion sefyll ar eu traed a symud i guriad y darn drwy glapio a thapio eu traed. Gofynnir iddynt wrando am batrwm rhythm penodol a chyfrannu drwy weiddi 'mambo' ar adegau penodol.

Dyma pryd y byddwn yn gofyn i athrawon anfon lluniau o'u dosbarth yn cymryd rhan, felly gofalmwch fod gennych chi gamera neu ffôn clyfar wrth law os hoffech chi ymuno.

Ar gyfer y gweithgaredd ymarferol, bydd y disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio rhythm iaith fel ffordd o ddechrau cyfansoddi rhythm, ac yn cael syniad sut mae addasu rhythmau i greu rhai newydd.


Byddwn yn gofyn i'r athrawon anfon patrymau o'r rhythmau mae eu disgyblion wedi'u creu at live.lessons@bbc.co.uk, ac efallai y byddant yn ymddangos ar y rhaglen.

Archwilio Alawon

Mae ail adran y Wers Fyw yn rhoi sylw i **Concerto Rhif 4 Mozart i'r Corn (3ydd symudiad)** ac mae'n rhoi cyflwyniad i gyfansoddi alawon syml. Bydd disgyblion yn defnyddio'r daflen **'Gweithgaredd 2 – Alawon'**.

Ar gyfer y gweithgaredd gwranddo, bydd disgyblion yn cael eu cyflwyno i'r ffurf rondo, a byddwn yn gofyn iddynt wrando am thema'r alaw sy'n wyth bar ac yn ymddangos drwy'r darn i gyd. Byddwn yn gofyn iddynt ddweud sawl gwaith mae'r unawdydd yn chwarae'r thema yn ystod y darn.

Ar gyfer y gweithgaredd ymarferol, bydd y disgyblion yn cael eu hannog i greu thema alaw eu hunain ac yn cael awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwneud hynny, o ddewis nodau i greu patrymau alaw. Bydd yr



athrawon yn cael cyfle i anfon y nodau mae'r disgyblion wedi'u dewis ar gyfer eu halaw at live.lessons@bbc.co.uk, ac efallai y byddant yn ymddangos ar y rhaglen.

Archwilio Dynameg

Mae adran olaf y Wers Fyw yn seiliedig ar **A Night on the Bare Mountain gan Mussorgsky**, ac mae'n rhoi cyflwyniad i ddynameg mewn cerddoriaeth. Bydd y disgyblion yn defnyddio'r daflen '**Gweithgaredd 3 – Dynameg**'.

Ar gyfer y gweithgaredd gwrando, gofynnir i'r disgyblion wrando ac adnabod dynameg yn wyth bar cyntaf y darn. Byddant hefyd yn cael eu cyflwyno i wahanol symbolau cerddorol a'r hyn maent yn ei olygu, ac yn cael eu hannog i ystyried sut mae ychwanegu dynameg yn newid teimlad darn.

Ar gyfer y gweithgaredd ymarferol, bydd y disgyblion yn cael eu dysgu i feddwl am eu dynameg eu hunain ar gyfer eu cyfansoddiadau.

Cysylltu â ni

Gallwch anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau cyn ac yn ystod y Wers Fyw at live.lessons@bbc.co.uk, neu drwy ddefnyddio'r hashnod **#bbclivelessons**. Byddwn yn ceisio ateb cynifer o'ch cwestiynau ag y bo modd.

Byddem hefyd wrth ein bodd yn gweld enghreifftiau o waith eich disgyblion. Os yw'ch dosbarthiadau wedi creu unrhyw waith neu wedi gwneud unrhyw weithgareddau gan ddefnyddio'r adnoddau ar ein gwefan, gallwch eu hanfon at live.lessons@bbc.co.uk, ac mae'n bosib y byddant yn cael eu dangos ar y rhaglen ac ar ein gwefan.

Os byddwch yn rhoi gwybod i ni bod eich ysgol yn bwriadu ymuno â ni ar y diwrnod, gallai enw eich ysgol ymddangos ar y rhaglen hefyd.

Diolch am eich diddordeb yng Ngwers Fyw Parti Deg Darn, a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar 23 Medi.